THOMAS, EVAN ('Ieuan Fardd Ddu'; 1733 - 1814), argraffydd a chyfieithydd

Enw: Evan Thomas
Ffugenw: Ieuan Fardd Ddu
Dyddiad geni: 1733
Dyddiad marw: 1814
Priod: Ellen Thomas (née Parry)
Rhiant: John Abel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a chyfieithydd
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Isfryn Jones

Mab John Abel (neu John Thomas) a oedd yn fab i Thomas Abel o'r Wtra Wen ym mhlwyf Llanfair Caereinion, Sir Drefaldwyn. Argraffydd oedd wrth ei alwedigaeth, a chan ei fod hefyd yn ysgolhaig Cymraeg da yr oedd galw mawr am ei wasanaeth mewn argraffdai Seisnig lle'r argreffid llyfrau Cymraeg. O Amwythig, lle y gweithiai yn 1765, symudodd i Gaer; yna, tua 1767, i Gaerfyrddin lle'r arhosodd am rai blynyddoedd ac y bu'n cywiro proflenni argraffiad Cymraeg o'r Beibl. Cyfrannodd ef a'i dad, John Thomas, i'r *Eurgrawn Cynmraeg*, y cylchgrawn Cymraeg cyntaf a argraffwyd, 1770. Yr oedd yn fardd, a chyhoeddai ei gerddi o dan y ffugenw 'Ieuan Fardd Ddu.' Yn 1781 yr oedd yn gysodydd yn swyddfa T. Wood, cyhoeddwr cyntaf y *Shrewsbury Chronicle*. Ef oedd awdur neu gyfieithydd *Anfeidrol werthfawrogrwydd Enaid Dyn*, 1767; *Barnedigaethau ofnadwy Duw*, 1767; cyfieithodd *Grace Abounding* (John Bunyan) o dan y teitl *Helaethrwydd o Ras*, 1767; *A Life of Faith* (W. Romaine), o dan y teitl *Traethawd ar Fywyd Ffydd*, 1767; a golygodd *Hymnau cymmwys i addoliad Duw o waith y diweddar Parch. Jenkin Jones... ynghyd a'i Farwnad*, 1768. Am beth amser hefyd cyhoeddodd almanac o dan ei enw ef ei hun.

Yn anffodus ymroes i ddiota, ac yn ei flynyddoedd olaf dirywiodd i fod yn gymeriad gwael. Rhoddodd heibio ei alwedigaeth fel argraffydd gan ymgymryd â seryddiaeth, dewiniaeth, a dywedyd ffortiwn. Yn niwedd ei yrfa cafodd noddfa yn yr House of Industry, Amwythig.

Priododd Ellen Parry, a oedd yn chwaer i William Parry, o'r Cae Ceirch, Dolgellau, Warden Ysgol Rhuthun (Bye-Gones, 6/3/1901, 4/6/1902, 21/1/1903) - fe'u priodwyd 15 Mehefin 1766 yn S. Chad. Amwythig, yn ôl rhestr y plwyf.

Bu farw yn nhloty Amwythig, 12 Ionawr 1814 - *Shrewsbury Chronicle*, 14 Ionawr 1814; talwyd 2s. 10d. i'r cludwyr yn ei angladd, meddai cyfrifon y tloty yn 'Record Office' Amwythig.

Awdur

Thomas Isfryn Jones

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 56754513

Wikidata: Q20821423

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu